

# BUCHEDD BANGOR



CYLCHGRAWN  
CADEIRLAN  
DEINIOL SANT  
YM MANGOR

THE MAGAZINE  
OF SAINT  
DEINIOL'S  
CATHEDRAL  
IN BANGOR



Cadeirlan  
Deiniol Sant  
*ym Mangor*

Saint Deiniol's  
Cathedral  
*in Bangor*



GWYN EU BYD Y  
RHAI PUR EU CALON  
O GANOL MEDU I  
DDYGWYL CRIST Y  
BRENIN

BLESSED ARE THE  
PURE IN HEART  
FROM THE MIDDLE  
OF SEPTEMBER  
UNTIL THE FESTIVAL  
OF CHRIST THE KING

18.9.2022-20.11.2022

RHAD AC AM DDIM  
EWCH Â CHOPÍAU I'W RHANNU  
FREE

PLEASE TAKE COPIES TO SHARE

# CROESO WELCOME

Gwylion

## Croeso i'r pumed rhifyn hwn o Buchedd Bangor, cylchgrawn Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.

"Buchedd" yw'r enw a roddir ar gofnod o fywyd rhywun, a cheir bucheddau'r saint o'r Canol Oesoedd sy'n adrodd hanes rhai o brif seintiau Celtaidd Cymru.

Mae **Buchedd Bangor**, felly, yn rhyw fath o gofnod o fywyd ein cymuned ni o gyfeillion Crist ym Mangor yr awr hon. Fe geir yma gymysgedd o ddefnydd ysbyrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd.

Mae'r pumed rhifyn hwn o **Fuchedd Bangor** yn nodi bron i flwyddyn ers i'n defodau a'n bywyd ar y cyd yn y Gadeirlan allu ail-ddechrau'n egniöl ar ôl heriau'r pandemig. Mae hefyd yn nodi ail-ddechrau llawen ar addoliad wythnosol yn Eglwys y Groes ym Maergeirchen – er bod yr eglwys honno wedi bod yn fwrlwm o weithgarwch cymunedol a thystiolaethu Cristnogol ers i'r cyfyngiadau cynnar ddod i ben.

Mae'r ffyddlondeb diwyd a'r ffydd lawen a welais yn y Gadeirlan ac yn Eglwys y Groes y flwyddyn ddiwethaf yn nodweddion yr ydym wedi'u coffáu ym mywyd Ei Diweddar Fawrhydi y Frenhines Elisabeth II. Yr wyf yn ddiolchgar i bawb yn y Gadeirlan, a'n holl gyfeillion dinesig, sydd wedi gwneud y coffâd hynny'n deilwng o'r un yr ydym wedi'i chymeradwyo i'w Duw.

Fel arfer, dyma'ch gwahoddiad i fod yn rhan lawn o ddefodau a dathliadau'r Gadeirlan ac Eglwys y Groes, ac i wahodd eraill i ymuno â ni wrth i ni, yn ddiwyd, yn llawen ac yn deilwng, roi gogoniant i Dduw.



Lluniau clawr | Cover images  
y Parchg | the Revd Hana Amner

## Welcome to this fifth issue of Buchedd Bangor, the magazine of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.


"Buchedd" is the old Welsh name given to a record of someone's life, and "bucheddau'r saint" (the "lives of the saints") are those medieval collections of works telling the story of the Age of the Saints.

**Buchedd Bangor** is, therefore, a sort of record of the life of our community of Christ's companions here in Bangor at this time. It offers a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together.

This fifth **Buchedd Bangor** marks almost a year since our observances and our common life at the Cathedral were able to recommence with vigour after the challenges of the pandemic. It also marks the joyful recommencement of weekly worship at Eglwys y Groes in Maergerchen – though the church there has been a hive of community activity and Christian witness since the early restrictions fell away.

The dutiful faithfulness and joyful faith that I have observed at the Cathedral and at Eglwys y Groes this past year are qualities we have commemorated in the life of Her Late Majesty Queen Elizabeth II. I am grateful to all at the Cathedral, and all of our civic friends, who have made those commemorations worthy of the one we have commended to her God.

As ever, this is your invitation to be fully involved in the observances and celebrations of the Cathedral and Eglwys y Groes, and to invite others to join us as we, dutifully, joyfully and worthily, give glory to God.



Oddi wrth yr  
Is-Ddeon  
From the  
Sub-Dean  
Canon Siôn  
Rhys Evans



Ymweliadau Brenhinol 1975 a 2002  
Her Late Majesty's visits in 1975 and 2002

# PANED HEFO ROBERT JONES

**Ymhob rhifyn o Buchedd  
Bangor, rydym yn cwrdd  
ag aelod o gymuned y  
Gadeirlan. Y tro hwn,  
rydyn ni'n cwrdd a Chlerc  
y Cabidwl, Robert Jones.**

Yn holi mae Naomi  
Wood, ein Cyfarwyddwr  
Cyfathrebu esgobaethol  
a'n Gweinidog Teulu yn  
y Gadeirlan ac yn Mro  
Deiniol.



Naomi Wood

**Dywedwch ychydig wrthyf am Rob.**

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn fy  
adnabod o fy ngwaith yn y Gadeirlan  
a bod yn rhan o'r bywyd addoli yno.  
Mae gen i gysylltiadau teuluol agos  
â'r lle wedi cael fy ngeni a'm magu  
rownd y gornel yn Llanfairfechan.  
Rwyf bellach yn byw ym Mangor ac  
yn gweithio i Esgobaeth Bangor fel  
Cynorthwy-ydd Personol i'r Esgob  
Cynorthwyol ac yn Gynorthwy-ydd  
Personol i Ysgrifennydd yr Esgobaeth.  
Fi hefyd yw Clerc y Cabidwl yma yn  
y Gadeirlan sy'n golygu fy mod yn  
cefngogi ac yn galluogi'r Is-ddeon a'r  
Cabidwl sy'n llywodraethu'r Gadeirlan.  
Mae wedi bod yn wych bod yn ôl yn y  
Gadeirlan am y 12 mis diwethaf mewn  
rôle wahanol.

Mae cerddoriaeth wastad wedi bod  
yn rhan bwysig o fy mywyd. Mae fy  
rhieni a neiniau a theidiau yn gerddorol  
a dysgais y piano pan oeddwn yn  
blentyn. Astudiai gerddoriaeth yn y  
brifysgol yma ym Mangor a gwnes  
radd Meistr perfformio mewn chwarae  
organ. Ar hyn o bryd rwy'n chwarae'r  
organ yn yr eglwys Gatholig Rufeinig  
ac yn dysgu piano ac organ yn fy  
amser hamdden.

**Bydd llawer o bobl yn y Gadeirlan yn  
dy weld ar y blaen yn gwasanaethu  
Bwrdd yr Allor ac yn cymryd rhan  
weithredol yn y gwasanaeth. Sut  
gwnes ti ddechrau cymryd rhan a beth  
mae'n ei olygy i ti?**

Dechreuais wasanaethu wrth Fwrdd  
yr Allor pan oeddwn i oddeutu saith

# GETTING TO KNOW ROBERT JONES

**In each edition of  
Buchedd Bangor, we meet  
another member of the  
Cathedral community.  
This time, we meet our  
Chapter Clerk, Robert  
Jones.**

Asking the questions  
is Naomi Wood, our  
diocesan Director of  
Communications and  
our Family Minister at  
the Cathedral and in Bro  
Deiniol.

**Tell me a little about Rob.**

Most people will know me from my work at the Cathedral and being a part of the worshipping life there. I have close family connections with the place having been born and brought up around the corner in Llanfairfechan. I now live in Bangor, work for the Diocese of Bangor as PA to the Assistant Bishop and am PA to the Diocesan Secretary. I'm also the Chapter Clerk here at the Cathedral, which means I support and enable the Sub-Dean and Chapter who govern the Cathedral. It's been great to be back at the Cathedral for the last 12 months or so in a different role.

Music has always been an important part of my life. My parents and grandparents are musical and I learnt the piano when I was a child. I studied music at university here in Bangor and did a performance Masters in organ playing. I currently play the organ at the Roman Catholic church and teach piano and organ in my spare time.

**Many people in the Cathedral will see you up at the front serving and taking an active part in the service. How did you begin to be involved and what does it mean to you?**

I started serving at the age of about seven in Llanfairfechan, and it was really important to me because I felt like I was contributing to the worship.

oed yn Llanfairfechan, ac roedd yn bwysig iawn i mi gan fy mod yn teimlo fy mod yn cyfrannu at yr addoliad. Mae gwasanaethu yn fy ngalluogi i ddod ar draws Duw trwy wneud rhywbeth. Roeddwn hefyd yn teimlo fy mod yn galluogi ac yn cyfoethogi pobl eraill yn eu haddoliad a'u ffydd. Roedd, ac mae'n dal i fod, yn rhywbeth rwy'n mwynhau ei wneud. Credaf ein bod i gyd yn cael ein galw i alluogi eraill ac i'w helpu i dyfu'n bersonol ond hefyd i addoli Duw, tyfu'r Eglwys a charu'r byd. Mae gennym ni i gyd ddoniau a sgiliau ac mae hyn yn rhywbeth y mae rhywun arall yn ei gydnabod a'i feithrin ynof. Does dim ots pa mor fach, dibwys neu ddi-nod yn eich barn chi yw eich cyfraniad, mae Eglwys a theyrnas Dduw yn ymwnedd â phawb ac mae ein cymuned wedi'i hadeiladu o lawer o bethau bach.

**Rwyt ti wedi gweld llawer o newid yn ystod dy amser yn y Gadeirlan. Beth sy'n gyffrous nawr a beth wyt ti'n edrych ymlaen ato?**

Rydyn ni'n ail-ymddangos ac yn ail-lunio'r hyn rydyn ni'n ei wneud, sut rydyn ni'n gwneud Eglwys a sut rydyn ni'n bod yn genhadol yn y ddinas. Mae gennym dîm llawn egni ac rydym yn cynnig rhywbeth gwahanol, nodedig a pherthnasol i ddinas Bangor. Wrth edrych



Eglwys y Santes Fair a Christ | St Mary's & Chruch Church, Llanfairfechan  
gan y CBHC | by the RCAHMW

Serving enables me to encounter God through doing something. I also felt like I was enabling and enriching other people in their worship and their faith. It was, and still is, something I enjoy doing. I believe that we are all called to enable others and to help them grow personally, but also to worship God, grow the Church and love the world. We all have gifts and skills and this is something that someone else recognised and nurtured in me. It doesn't matter how small, unimportant or insignificant you think your contribution is, the Church and the kingdom of God is about everybody, and our community is built up of lots of small things.

---

## MAE GWASANAETHU YN FY NGALLUOGI I DDOD AR DRAWS DUW

---

**You've seen a lot of change during your time at the Cathedral.  
What's exciting about now and what are you looking forward to?**

We're re-emerging and we're re-shaping what we do, how we do Church and how we're being missional in the city. We've got an energised team and we're offering something different, distinctive and relevant to the city of Bangor. Looking forwards I hope that we find ways of being witnesses of faith, hope and love to the whole community. We've started to do that but there's so much more we can do. We've got to change – the Church has never stayed the same. We need to be brave and be missional.

**Earlier you used the phrase "back at the Cathedral." Has it always been a significant place for you?**

I grew up going to the parish church in Llanfairfechan where I was Confirmed. My grandmother took me to a carol service at the Cathedral where I was told that I have a lovely voice by a member of the congregation and so I joined the Cathedral Choir. I was also organ student here and head server while I was at University.

When I sang in the Choir there were 16 of us – all boys. It was amazing. We were all in five times a week including a Saturday morning. We had great fun and we supported each other. There was also something amazing about being in that building five times a week at least. One Holy Week we worked out that we'd spent 70 hours there. Being connected to what's happened in that place since it was founded is a special feeling. Between the walk from school and

ymlaen rwy'n gobeithio y byddwn yn dod o hyd i ffyrdd o fod yn dystion ffydd, gobaith a chariad i'r gymuned gyfan. Rydyn ni wedi dechrau gwneud hynny ond mae cymaint mwy y gallwn ni ei wneud. Mae'n rhaid i ni newid – nid yw'r Eglwys erioed wedi aros yr un peth. Mae angen inni fod yn ddewr a bod yn genhadol.

### **Yn gynharach fe wnest ti ddefnyddio'r ymadrodd "yn ôl yn y Gadeirlan." A yw wedi bod yn lle arwyddocaol i ti erioed?**

Cefais fy magu yn mynd i eglwys y plwyf yn Llanfairfechan lle cefais fy Nghanffyrmio. Aeth fy nain â fi i wasanaeth carolau yn y Gadeirlan lle dywedwyd wrthyf fod gennylais hyfryd gan aelod o'r gynulleidfa ac felly ymunais â Chôr y Gadeirlan. Roeddwn hefyd yn fyfyrwr organ yma ac yn brif was Bwrdd yr Allor tra roeddwn yn y Brifysgol.

Pan ganais yn y Côr roedd 16 ohonom yn fechgyn. Roedd yn anhygoel. Roedden ni i gyd i mewn pum gwaith yr wythnos gan gynnwys bore Sadwrn. Cawsom hwyl fawr ac fe wnaethom gefnogi ein gilydd. Roedd rhywbeth rhyfeddol hefyd am fod yn yr adeilad hwnnw bum gwaith yr wythnos o leiaf. Un Wythnos Fawr fe weithion ni allan ein bod ni wedi treulio 70 awr yno. Mae bod yn gysylltiedig â'r hyn sydd wedi digwydd yn y lle hwnnw ers ei sefydlu yn deimlad arbennig. Rhwng y daith gerdded o'r ysgol a'r ymarfer yn dechrau, dim ond cymaint o *pick 'n' mix* yn Woolies y gallwch ei brynu felly, byddwn yn treulio amser yn y Gadeirlan yn sylwi ar wahanol bethau a jyst yn treulio amser gyda phobl yno. Mae llonyddwch ac agosrwydd yn yr adeilad i'r hyn sydd wedi mynd o'r blaen a'r hyn sydd i ddod.

### **Beth mae dy ffydd yn ei olygu i ti?**

Mae'n golygu fy mod i'n gallu profi cariad a gobaith Duw yn yr amseroedd da ac yn yr amseroedd anodd iawn. Mae hefyd yn rhoi'r gymuned rwy'n rhan ohoni i mi lle gallaf brofi cariad Duw trwy eraill a'i rannu gyda nhw.

### **Pe bai rhywun yn dod atat ti yn dweud ei fod yn meddwl bod Duw yn gofyn iddyn nhw gynnig mwy i fywyd yr Eglwys beth fyddet ti'n ei ddweud?**

Mae gan bob un ohonom rywbed y gallwn ac y dylem ei wneud ac weithiau mae pobl eraill yn cydnabod hynny yn well ynom ni nag yr ydym yn ei wneud i ni ein hunain. Felly, byddwn yn eu cynghori i siarad ag eraill a gweld beth maen nhw'n ei ddweud. Byddwn hefyd yn awgrymu eu bod yn rhoi cynnig ar bethau. Mae cymaint o wahanol weinidogaethau ym mywyd yr eglwys ac maent i gyd yn hollbwysig i bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud. [B]

the rehearsal starting there's only so much pick 'n' mix at Woolies you can buy so I would spend time in the Cathedral seeing different things and just spending time with people in there. There's a stillness and a closeness in the building to what has gone before and what is to come.

### **What does your faith mean to you?**

It means that I can experience God's love and hope in both the good times and the really tough times. It also gives me the community that I'm part of where I can both experience God's love through others and share it with them.

### **If someone came to you saying that they think God is asking them to offer more to the life of the Church what might you say?**

We all have something we can and should do and sometimes other people recognise that better in us than we do for ourselves. So, I'd advise them to talk to others and see what they say. I'd also suggest they give things a go. There are so many different ministries within the life of the church and they are all paramount to who we are and what we do. [P]



Robert Jones  
Clerc y Cabidwl | Chapter Clerk

# Y FFORDD AMGEN



Yng Nghadeirlan Coventry  
In Coventry Cathedral

## "RYDYM YN AELODAU I'N GILYDD"

Yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn darllen cyfres o lyfrau wedi'u lleoli ar yr Ynysoedd Groegaidd. Rwy'n meddwl mai cloriau'r llyfrau â'm denodd yn y lle cyntaf, gyda golygfeydd bendigedig o bentrefi wedi'u gwylgalchu ger moroedd glas tywyll, sy'n fy atgoffa o wyliau cyn y cyfnod clo. Roedd tudalen gefn un o'r llyfrau yn disgrifio hanes gwraig yn dychwelyd at ei gwreiddiau mewn pentref bach Groegaidd ar ynys Rhodes, ac yn dadorchuddio gorffennol ei nain. Digon diogel ar gyfer darllen cyn gwely fyddech chi'n meddwl.

Fodd bynnag, yr hyn yr oeddwn i wedi'i anghofio oedd fod y Natsïaid wedi goresgyn Rhodes ac roedd y llyfr wedi'i seilio'n rhannol ar ddigwyddiadau dinistriol yr adeg hynny.

Roedd Rhodes wedi bod yn nwyo'r Eidalwyr, ond ar ôl cwmp Mussolini ym 1943, cymerodd y Natsïaid drosodd. Ar y pryd roedd cymuned o 1,800 o Iddewon yn byw yn Rhodes. Ym mis Gorffennaf 1944 gofynnwyd i ddynion Iddewig Rhodes gyflwyno eu papurau yn hen bencadlys Llu Awyr yr Eidal. Trap oedd hyn. Y bore trannoeth cymerodd dau swyddog o'r S.S. y papurau a gorfoli'r gwragedd Iddewig, o dan fygythiad o farwolaeth, i ymuno â'r dynion ynghyd â'u holl eiddo. Cafodd yr Iddewon eu cadw yn y gwersyll dros dro, eu trin yn

# THE OTHER WAY

**Pregethwyd y bregeth  
hon gan Canon Tracy  
Jones, y Canon dros  
Fywyd Cynulleidfaol,  
ar y Seithfed Sul wedi'r  
Drindod, 31 Gorffennaf  
2022.**

Y llithoedd oedd  
Effesiaid 4:25-32 a  
Mathew 5:20-24,  
a'r thema yn ei cyfres  
bregethu oedd  
"Cyflawnder".

**Canon Tracy Jones,  
Canon for Congregational  
Life, preached this sermon  
on the Seventh Sunday  
after Trinity, 31 July 2022.**

The lessons were  
Ephesians 4:25-32 &  
Matthew 5:20-24, and the  
theme in our sermon series  
was "Justice".

**"FOR WE ARE  
MEMBERS OF ONE  
ANOTHER"**

Recently I've been reading a book series set on the Greek Islands. I think the book covers attracted me first, with wonderful scenes of whitewashed villages nestled by deep blue seas, which reminded me of holidays from before lockdown. The back page of one of the books described the story of a woman returning to her roots in a small Greek village on the island of Rhodes, and the uncovering of her grandmothers past. Safe enough for a bedtime read you would think.

However, what I'd forgotten about was the Nazi occupation of Rhodes, and the book was partly based during the devastating events of this time.

Rhodes had been in Italian hands, but after the fall of Mussolini in 1943 the Nazi's took over. At the time there was a community of 1,800 Jews living in Rhodes but in July 1944 the Jewish men of Rhodes were asked to present their papers at the old headquarters of the Italian Airforce. It was a trap. The next morning two S.S. officers confiscated the papers and forced the Jewish women, under threat of death, to join the men along with all their belongings. The Jewish people were kept in this makeshift camp, brutally treated and humiliated. A few days later approximately 1,600 Jewish men, women and children were packed onto

giaidd a'u hiselhau. Ychydig o ddyddiau'n ddiweddarach, paciwyd tua 1,600 o ddynion, gwragedd a phlant Iddegig yn glos iawn mewn cychod cargo a'u cludo i Athens. Roedd yr amodau'n ddifrifol ac ar ôl glanio yn Piraeus cawsant eu symud i ganolfan gadw arall a threulio ychydig mwy o ddyddiau o greulondeb cyn cael eu cloi mewn tryciau gwartheg a'u cludo i Auschwitz.

Mae'r gweddill yn hanes, ac er gwaethaf cael eu rhyddhau gan luoedd y Cyngreiriaid rhyw chwe mis yn ddiweddarach, dim ond 150 o'r 1,600 o bobl wreiddiol a oroesodd a bu farw llawer o'r goroeswyr yn fuan wedyn.

Roedd y llyfr yn adrodd hanes un teulu yn ystod y cyfnod hwn ac, er yn ffuglen, roedd wedi'i seilio ar stori wir un ferch ifanc a oroesodd. Dihangodd ychydig cyn i'r bobl cael eu gorfodi ar y llongau cargo. Llwyddodd i guddio, ymunodd â'r gwrthsafwyr ac aeth ymlaen i beryglu ei bywyd yn tanseilio gwaith y goresgynwyr Natsiaidd.

Roedd prif thema'r stori'n canolbwntio ar fywydau'r ychydig a oroesodd a'u brwydr i ail hawlio'u cartrefi coll. Oherwydd, os nad oedd arswyd y Natsïaid yn ddigon, sylweddolodd yr ychydig a



Adfeilion hen Gadeirlan Mihangel Sant yn Coventry  
The ruins of the old Saint Michael's Cathedral in Coventry

old cargo vessels and shipped to Athens. The conditions were dire, and after landing in Piraeus they were moved to another holding centre where they spent a few more days of brutality before being locked in cattle trucks and taken to Auschwitz.

The rest is history, and despite the camps being liberated by the allied forces some six months later, only 150 of those original 1,600 people survived and many survivors died soon after.

The book told the story of one family during this time and although fictional, it was based on a factual story of one young woman who survived. She escaped just before people were forced onto the cargo ships. She managed to hide, joined the resistance fighters, and went on to risk her life sabotaging the work of the Nazi occupiers.

The main theme of the story concentrated on the lives of the few that survived and their fight to reclaim lost homes. Because, if the horror of the Nazi's wasn't enough, those few who returned found that they had no homes to return to, as they had been taken over by their former neighbours.

It's hard to imagine how anybody moves on from such horror and injustice. How do those who have suffered such wrong ever face the future?

The immediate response may be for revenge; the human desire to pay back wrong with wrong. This cry for vengeance flows through the Psalms as God is asked to intervene and slay the enemy in sometimes horrific ways; and in the case of those who have suffered such injustices as the Jewish people, maybe that's understandable.

When lives are lost, when freedoms are stolen and when futures are destroyed no wonder people cry to God for vengeance.

But there is another way.

I used to live in Coventry. It's where I trained to be a nurse. Sometimes, when I needed time to think or when I needed a bit of space, I used to visit the Cathedral there, or, to be correct, the Cathedrals.

In Coventry you can stand in the bombed-out ruins of the old Cathedral and see first-hand the devastation that war can bring. Coventry was bombed relentlessly on the night of 14 November 1940 through to early the next morning. The majority of the city was completely destroyed and over 500 lives were lost. The Cathedral was left in ruins.

Just imagine for a moment, standing in this Cathedral in Bangor, looking at the broken, charred walls, the shards of stained glass beneath your feet and roof timbers fallen to the ground. What would your response be?

The morning after the bombing, that's exactly what the Provost of Coventry Cathedral did, and in that moment as he stood amongst the ruins he decided that they would rebuild; not as an act of defiance, but as a sign of faith, trust and hope for the future of the world.

ddychwelodd nad oedd ganddyn nhw unrhyw gartrefi i ddychwelyd iddyn nhw, roedd eu cyn cymdogion wedi'u meddiannu.

Mae'n anodd dychmygu sut mae unrhyw un yn symud ymlaen o'r fath arswyd ac anghyfiawnder. Sut mae'r rhai sydd wedi dioddef cymaint o gam yn gallu wynebu'r dyfodol?

Gallai'r ymateb cyntaf fod yn un am ddial; yr awydd dynol i dalu yn ôl un cam gydag un arall. Mae'r gri hon am ddialedd yn llofo trwy'r Salmau wrth ofyn i Dduw ymyrryd a lladd y gelyn, weithiau mewn ffyrdd arswydus; ac, yn achos y rhai sydd wedi dioddef anghyfiawnder megis yr Iddewon, efallai bod hynny'n ddealladwy.

Pan fo bywydau'n cael eu colli, rhyddid yn cael ei ddwyn a pan fo'r dyfodol yn cael ei ddinistrio, does dim syndod fod pobl yn erfyn ar Dduw am ddial.

Ond mae yna ffordd amgen.

Roeddwn i'n arfer byw yn Coventry. Dyna ble hyfforddais fel nyrs. Weithiau, pan oeddwn angen amser i feddwl neu angen ychydig o le, roeddwn arfer ymweld â'r Gadeirlan yno, neu i fod yn gywir, yr Eglwysi Cadeiriol.

Yn Coventry gallwch sefyll yn adfeilion wedi'u bomio'r hen Gadeirlan a gweld â'ch llygaid eich hunain y dinistr sy'n gallu dod gyda rhyfel. Cafodd Coventry ei bomio'n ddi-baid ar y noson 14 Tachwedd 1940 tan yn gynnar y bore wedyn. Cafodd y mwyafif o'r ddinas ei dinistrio'n llwyr a chollwyd dros 500 o fywydau. Cafodd y Gadeirlan ei gadael yn adfeilion.

Dychmygwch am eiliad, sefyll yn Gadeirlan hon ym Mangor, yn edrych ar y waliau golosgedig, toredig, a darnau mân o wydr lliw o dan eich traed, a choed y to wedi disgyn i'r ddaear. Beth fyddai'ch ymateb chi?

Y bore ar ôl y bomio, dyna'n union beth wnaeth Profost Cadeirlan Coventry, ac yn yr eiliad honno, wrth iddo sefyll ymysg yr adfeilion, penderfynodd y bydden nhw'n ail adeiladu; nid fel gweithred herfeiddiol, ond fel arwydd o ffydd, ymddiriedaeth a gobaith am ddyfodol y byd. Y Nadolig hwnnw arweiniodd y gwasanaeth o'r adfeilion a galwodd, nid am ddial, ond i "weithio gyda'r rhai a oedd wedi bod yn elynion i adeiladu byd mwy caredig, yn debycach i'r Baban lesu."

Heddiw, gallwch sefyll yn yr adfeilion hynny ac edrych tuag at yr eglwys gadeiriol newydd, lle mae'i gweinidogaeth yn parhau i ganolbwytio ar gymodi. Mae'n le o obaith ac mae'n le sy'n byw geiriau Paul a glywsom yn gynharach: "Bwriwch ymaith oddi wrth ych pob chwerwder, llid a digofaint; byddwch yn dirion wrth eich gilydd, yn dyner eich calon, yn maddau i'ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi."

Os byddwch yn darllen y Salmau'n ofalus, fe fyddwch yn sylwi, pan geisir gofyn am ddialedd, y gelwir ar Dduw. Hyd yn oed yn y gri fwyafrif

That Christmas he led the service from the ruins and called not for revenge but to "work with those who had been enemies to build a kinder, more Christ Child-like world."

Today you can stand in those remains and look towards the new cathedral, a place whose ministry continues to focus on reconciliation. It's a place of hope and it's a place that lives Paul's words that we heard earlier: "Put away from you all bitterness and wrath and anger; be kind to one another, tender-hearted, forgiving one another, as God in Christ has forgiven you."

If you read the Psalms carefully, you notice that whenever vengeance is sought, its God who is called upon. Even in the most desperate cries, the psalmist recognises that God and God alone is judge. And God's justice we learn, through the life of Jesus, is not about vengeance and destruction. God's justice is about restoration: restoration of our relationship with God, with each other and with the world.

For we are members of each other.



Cadeirlan newydd Mihangel Sant yn Coventry  
The new Saint Michael's Cathedral in Coventry

enbyd, mae'r salmydd yn cydnabod mai Duw, a Duw yn unig, yw'r barnwr. Ac nid yw cyfiawnder Duw, rydym yn dysgu, trwy fywyd lesu, yn golygu dial a dinistrio. Mae cyfiawnder Duw ynghylch adfer: adfer ein perthynas â Duw, gyda'n gilydd a chyda'r byd.

Oherwydd rydym yn aelodau o'n gilydd.

Mae'r math hwn o gyfiawnder yn anodd. Mae'n rhaid bod adfer perthynasau pan fyddwch wedi cael eich torri mor arswydus, yn ymddangos yn amhosibl. Allwn ni ddim ei wneud yn hawdd ar ein pen ein hunain. Dim ond mor bell allwn ni fynd ac yna rydym angen Duw. Dyma'r math o waith caled o heddwch a chymodi a gynhaliwyd yn Ne Affrig ar ôl Apartheid ac yng Ngoledd Iwerddon i ganiatâu cytundeb heddwch.

Mae'r math o waith caled o gydnabod ein bod yn aelodau i'n gilydd, wedi ein creu yn nelwedd Duw. Nid wedi'i wneud ar gyfer pechod ac anobaith ond wedi'i wneud i fod mewn perthynas â'n gilydd a chyda Duw.

Mae anghyfiawnderau rhyfel yn amlwg ac yn frawychus, ond mae yna cymaint o anghyfiawnderau yn ein byd sydd yn aml yn anoddach eu gweld. Pobl yn dioddef o hygerchedd annheg, anghydraddoldeb, rhagfarn, tlodi, homophobia, rhywiaeth a llawer, llawer mwy. Anghyfiawnderau sy'n anwybyddu dynoliaeth ein gilydd. Anghyfiawnderau sy'n anghofio ein bod yn aelodau i'n gilydd. Anghyfiawnderau sy'n anwybyddu fod delwedd Duw wedi'i argraffu ar bob person y byddwch yn eu cwrdd.

Mae cyfiawnder Duw yn atgyweirio hynny, nid trwy ddileu'r gorffennol, y brifo a'r cam, ond trwy eu cydnabod, gofyn am faddeuant amdanyn nhw ac ail adeiladu; ail-adeiladu perthynasau ac ail-adeiladu gobaith.

Weithiau, mae gwadu dynoliaeth pobl eraill mor greulon, mor ddinistriol nes bod y dyhead am ryw fath o ddial neu dalu'n ôl yn gryf.

Ond nid yw'r dyfodol erioed wedi'i wella gan ddial, mae dial yn magu dial a does dim diwedd ar y cylch hwnnw. Mae cyfiawnder Duw yn camu mewn ac yn torri'r cylch.

Cafodd yr hanes sy'n cael ei adrodd yn y llyfr ei ddatrys trwy'r llysoedd a thrwy bobl yn sgwrsio ac yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae hanes yr Iddewon yn Rhodes a lleoedd eraill yn parhau. Mae eiddo yn dal yn destun cynnen ac anghyfiawnderau eto i'w datrys. Mae cyfiawnder am gamau'r gorffennol yn rhedeg allan o amser a ni fydd llawer o bobl yn cael y cyfiawnder hwnnw yn y bywyd hwn.

Ond, Duw yw ein barnwr terfynol, ac rydym yn ymddiried yng nghyfiawnder Duw. Dyna ble mae'n gobaith. **[P]**

This kind of justice is hard. Restoring relationships when you have been so brutally broken must seem impossible. We can't easily do it on our own. We can only get so far and then we need God. It's the kind of hard work of peace and reconciliation that took place in South Africa after Apartheid and in Northern Ireland to allow a peace agreement.

It's the hard work of acknowledging that we are members of each other, made in the image of God. Not made for sin and despair but made to be in relationship with each other and with God.

---

## FORGIVE ONE ANOTHER, AS GOD IN CHRIST HAS FORGIVEN YOU

---

The injustices of war are obvious and horrific, but there are so many injustices in our world that are often more difficult to see. People suffer from unfair access, inequality, prejudice, poverty, homophobia, sexism and many, many more. Injustices which ignore each other's humanity. Injustices which forget that we are members of one another. Injustices that ignore the image of God imprinted on every person you meet.

God's justice repairs that not by erasing the past, the hurts and the wrongs, but by recognising them, seeking forgiveness for them and rebuilding; rebuilding relationships and rebuilding hope.

Sometimes, people's dismissal of the humanity of others is so cruel, so destructive that the yearning for some kind of vengeance or payback is strong.

But the future has never been improved by vengeance, vengeance breeds vengeance and there is no end to that cycle. God's justice steps in and breaks the cycle.

The story told in the book was resolved through the courts and through people talking and working together.

The story of the Jewish people in Rhodes and elsewhere continues. Property is still being fought over and injustices are yet to be addressed. Justice for past wrongs is running out of time and many people won't experience that justice in this life.

But God is our ultimate judge, and we trust in God's justice. That is where our hope lies. [P]

# 5. RHODD HEDDIW

---

Mae Esgobion a Chorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru wedi ein gwahodd, yn ystod 2022, i ymgysylltu'n ddyfnach â geiriau'r Beibl. Un o'r ffyrdd y gwnawn hyn yng Nghadeirlan Deiniol Sant yw trwy bum erthygl yn **Buchedd Bangor** a fydd yn ein dwyn yn agosach at yr Efengyl yn ôl Sant Luc.

Rydyn ni wrth ein bodd o gael ein tywys gan y Parchg Luigi Gioia. Diwinydd ac ymchwilydd ym Mhrifysgol Caergrawnt yw Luigi Gioia ac mae'n arfer ei weinidogaeth yn Eglwys Sant Paul, Knightsbridge yn Llundain.

Mae'r traethodau byr hyn ar Luc yn fenter ddeallusol sy'n dyfnhau ein dealltwriaeth. Ond maent hefyd yn offrwm ysbrydol. Gadewch inni gnoi cil ar eiriau Luigi, a myfyrio arnynt yn weddîgar, wrth inni yfed yn ddwfn o air sanctaidd Duw yn y Beibl.



Luigi Gioia  
gan | by Rona Lane



**ewn un modd**, "heddiw", y diwrnod hwn, yr un rydym yn ei fyw nawr, yw'r unig realiti, yr unig amser sy'n cyfrif. Mae'n wir, fod y gorffennol wedi ein ffurfio mewn ffyrdd sy'n effeithio ar ein hamser presennol, ac y dylem baratoi ychydig o gynlluniau,

ychydig o ddarpariaeth ar gyfer yfory, ac ar gyfer y dyfodol pellach i ffwrdd – os byddaf i'n gwario cyflog mis heddiw, byddaf yn bendant, mewn trybini yfory! Ac eto, heddiw, yr yma a nawr, yw'r unig amser sy'n wirioneddol fodoli, gan fod ddoe wedi mynd ac nid yw yfory eto wedi dod. Ac mae yna rywbeith sy'n sicrhau, sy'n cadarnhau ac weithiau, sydd hyd yn oed yn calonogi, wrth gychwyn pob diwrnod newydd, yn enwedig gyda choffi ffres, newyddion ffres, gobeithion ffres.

Wrth gwrs, mae yna adegau yn ein bywydau pan mae ddoe yn pwysu mor drwm arnom gyda phryder neu iselder, neu ein bod mor bryderus am yfory, fod dechrau diwrnod newydd yn gallu bod yn eithriadol o frawychus. Ond mae heddiw, y diwrnod hwn, yn aros yn ddechrau newydd beth bynnag, yn ein gorfodi i godi o'r gwely, i aros a symud – ac er i ddechrau efallai nad yw'r diwrnod penodol hwn yn addo unrhyw gyffro, unrhyw newid, gallaf

# 5. THE GIFT OF TODAY

---

The Bishops and Governing Body of the Church in Wales have invited us, during 2022, to engage more deeply with the words of the Bible. One of the ways in which we are doing this at Saint Deiniol's Cathedral is by five articles in **Buchedd Bangor** that will draw us closer to the Gospel according to Saint Luke.

We're delighted that our guide is the Revd Luigi Gioia. Luigi Gioia is a theologian and researcher at Cambridge University and exercises his ministry at St Paul's Church, Knightsbridge in London.

These short essays on Luke are an intellectual enterprise, deepening our knowledge. But they are also a devotional, spiritual tool. Let us take time to digest Luigi's words, to reflect on them, and to use them as preparation for prayer, as we drink deeply from God's holy word in the Bible.

---

**T**here is a sense in which "today", this day, the one we are living now, is the only reality, the only time which matters. True, the past has shaped us in ways that affect our present time, and we need to make some plans, some provisions for tomorrow, and for the more distant future – if I spend a month salary today, I will certainly be in trouble tomorrow!

And yet, today, the here and now, is the only time that actually exists, since yesterday is gone and tomorrow is not yet. And there is something reassuring, steady, and sometimes even elating in the start of each new day, especially with fresh coffee, fresh news, fresh hopes.

Of course, there are times in our lives when the yesterday weighs so heavily with anxiety or depression on us, or we are so worried about the morrow, that starting a new day can be exceedingly daunting. But the today, this day, remains a new beginning nonetheless, forces us to get out of bed, to remain on the move – and even if at first this particular day might not promise any excitement, any change, I can try to tackle it by little, manageable steps. Even during these times, the important thing is to keep going, one little step at the time.

geisio ei daclo mewn camau bach, hydrin. Hyd yn oed yn ystod yr adegau hynny, y peth pwysig yw cadw i fynd, un cam bach ar y tro.

Mae "Heddiw" yn air allweddol yn Efengyl Luc, ac mae'n gweithio fel trobwynt y funud mae lesu'n dechrau ar ei weinidogaeth o bregethu, pan mae'n mynd i mewn i synagog, yn darllen darn o'r proffwyd Eseia ac yn datgan: "Heddiw yn eich clyw chwi y mae'r Ysgrythur hon wedi ei chyflawni" (Luc 4.21).

Un peth yn sicr sydd ond yn gallu digwydd heddiw yw: clywed Duw yn siarad gyda ni. Allwn ni byth ddibynnu ar y ffaith ein bod wedi gwrando ar Dduw o'r blaen, ein bod wedi gweddio iddo yn y gorffennol, wedi credu ynddo ddoe.

Yn ein perthynas â Duw, dim ond heddiw sy'n bwysig, sy'n gwneud gwahaniaeth. Efallai bod hyn yn ymddangos yn annheg oherwydd mae'n golygu fod gweithiwr yr awr olaf yn derbyn yr un cyflog â'r rhai a fu'n gweithio ers y cychwyn. Ond os ydych yn meddwl amdano, mae'n newyddion da i bob un ohonom: mae'n golygu, waeth pa mor gyndyn neu esgeulus rydym wedi bod yn ein perthynas â Duw hyd heddiw, os nad ydym yn cau ein calonnau iddo heddiw, ein bod o'r diwedd yn dechrau talu sylw i'w eiriau heddiw, ein bod yn cael llechen lân, ail wefriad, fel petai dim byd wedi digwydd. A pha obaith na allwn ni ei gael o glywed fod hyd yn oed rhywun sy'n treulio ei fywyd yn twyllo a dwyn ac sydd wedi'i gondemnio i farwolaeth am hynny, yn gallu clywed lesu'n dweud wrtho: "Heddiw, byddi gyda mi ym Mharadwys" (Luc 23.43)?

---

PAN AGORWN EIN BEIBLAU ET<sup>O</sup>,  
FYDDAN NHW DDIM YN METHU  
Â SIARAD GYDA NI, CYHYD Â'N  
BOD NINNAU HEFYD YN AGOR EIN  
CALONNAU IDDYN NHW

---

Mae'r Ysgrythur yn llyfr hynafol, ond dim ond heddiw mae gair Duw, llais Duw, i'w glywed. Efallai bod ein Beiblau wedi sefyll yn llychlyd a heb eu hagor ar y silffoedd yn ein cartrefi ers blynnyddoedd, ond y diwrnod byddwn yn eu hagor eto, fyddan nhw ddim yn methu â siarad gyda ni, cyhyd â'n bod ninnau hefyd yn agor ein calonnau iddyn nhw: "Heddiw os gwrandewch ar ei leferydd!" meddai Salm 95.7, sy'n cael ei aseiniog gan yr Hebreaid: "Tra mae'r 'heddiw' hwnnw'n cael ei alw felly" mae gennych amser a chyfle i ganfod "anogaeth i'ch gilydd" (Hebreaid 3.13) diolch i air Duw sy'n "fyw ac yn

"Today" is a key word in Luke's Gospel, and it functions as a tipping point at the moment in which Jesus begins his ministry of preaching, when he enters a synagogue, reads a passage from the prophet Isaiah and proclaims: "Today this scripture has been fulfilled in your hearing" (Luke 4.21).

One thing which for sure can only happen today is this: hearing God speaking to us. We can never rely on the fact that we listened to God before, that we prayed him in the past, believed in him yesterday.

---

## THE DAY WE OPEN OUR BIBLES AGAIN, THEY NEVER FAIL TO SPEAK TO US, PROVIDED WE ALSO OPEN OUR HEARTS TO THEM, AND LISTEN TO GOD'S VOICE

---

In our relation with God only the today matters, makes a difference. This might seem unfair because it means that the labourer of the last hour receives the same salary as those who have worked since the beginning. But if you think about it, it is good news for all of us: it means that however reluctant or negligent we might have been in our relation to God up to now, if we do not close our hearts to him today, if we finally start paying attention to his words today, we get a fresh start, a clean slate, a rebooting, as if nothing had happened. What hope cannot we draw from hearing that even someone who spends his life cheating and stealing and has been condemned to the death penalty for this, can hear Jesus saying to him: "Today you will be with me in Paradise" (Luke 23.43)?

Scripture is an ancient book, but the word of God, the voice of God, can only be heard today. Our Bibles might have stood dusty and unopened on the shelves in our homes for years, but the day we open them again, they never fail to speak to us, provided we also open our hearts to them: "O that today you would listen to his voice!" says Psalm 95:7, which is echoed by Hebrews: "As long as [this day] is called today" you have time and opportunity to find "encouragement for each other" (Hebrews 3.13) thanks to the word of God which is "living and active," able to renew "the thoughts and intentions of the heart" (cf. Hebrews 4.12f.).

I like to think that this is one of the meanings of the sentence of the Lord's Prayer that says: "Give us today our daily bread." It certainly

weithgar,” yn gallu adnewyddu “bwriadau a meddyliau'r galon” (cf. Hebrewaid 4.12f.).

Rwy'n hoffi meddwl mai dyma un ystyr o'r frawddeg yng Ngwedi'r Arglwydd sy'n dweud: "Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol". Mae'n cyfeirio'n bendant at faeth i'r corff, ond hefyd at fara'r bywyd sef gair Duw. Mae "Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol" yn golygu: "Dyro i ni heddiw air sy'n ein hysbrydoli, sy'n rhoi gobaith, ystyr i ni. Dyro i ni air y gallwn ni gyrraedd trwyddo gan anogaeth a chysur Duw. Dyro i ni air sy'n gallu ein helpu i oresgyn unrhyw bryder y gorffennol,

---

## DYRO I NI AIR I ORESGYN UNRHYW BRYDER Y GORFFENNOL, UNRHYW BRYDER O'R DYFODOL, ER MWYN I NI ALLU BYW'R FUNUD HON, Y DIWRNOD HWN, I'R EITHAF

---

unrhyw bryder o'r dyfodol, er mwyn i ni allu byw'r funud hon, y diwrnod hwn, i'r eithaf.”

